

## Diweddariad ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor – Blwyddyn 3 (2019-20)

Cam gweithredu	Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Cyfrifoldeb	Diweddariad
1.1	Cymraeg i Oedolion	Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg	Cynyddu gweithgarwch marchnata ac ymestyn nifer y cyrsiau sydd ar gael ar bob lefel	Cynyddu nifer y cofrestriadau gan 20%	Dysgu Cymraeg y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Cododd nifer yr oedolion sy'n cofrestru i ddysgu Cymraeg gan dros 100% rhwng 2016 a 2019, o 180 i 385 ar gyrsiau prif ffrwd. Yn 2020 nifer yr oedolion sydd wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg ar gyrsiau rheolaidd yw 404.
1.2		Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud o lefelau Mynediad a Sylfaen i gyrsiau lefel Uwch	Rhoi cymorth a chanllawiau wedi'u targedu i annog dysgwyr i symud i lefel uwch o ruglder	Cynyddu cyfraddau cynnydd i lefelau uwch 20%	Dysgu Cymraeg y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Cododd nifer y dysgwyr ar gyrsiau Uwch a Rhuglder i 58 yn 2019 o 24 yn 2016. Diweddariad 2020 - 66 o ddysgwyr.
1.3		Darparu mwy o gyrsiau iaith yn y gweithle ar amryw lefelau hyfedredd i alluogi mwy o gyflogeion i weithio'n ddwyieithog	Gwella darpariaeth yn y gweithle yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i ddechreuwyr a phobl sy'n dechrau dysgu Cymraeg	Cynyddu darpariaeth yn y gweithle 100%	Dysgu Cymraeg y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Mae DCyF yn hyfforddi 64 o gyflogeion Cyngor y Fro ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion yn 2019-2020. Cyflwynir dau gwrs mewn gweithleoedd yng Nghaerdydd gan DCYF fel rhan o fframwaith Gwaith Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

1.4		Rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg gyfarfod ac ymarfer eu sgiliau iaith	Trefnu gweithgareddau cymdeithasol a 'sesiynau sgwrs' i wella hyder a lefelau hyfedredd	Sefydlu 4 lleoliad yn yr ardal i gynnal cyfleoedd wythnosol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol	Dysgu Cymraeg y Fro; Menter Bro Morgannwg	Mae DCyF yn trefnu digwyddiadau rheolaidd i ddysgwyr a siaradwyr rhugl at ei gilydd gan gynnwys dathliadau tymhorol ac Ysgolion Sadwrn. Mae Menter Bro Morgannwg wedi parhau i gefnogi 4 sesiwn sgwrsio wythnosol gyda gwirfoddolwyr yn arwain y grwpiau erbyn hyn. Bydd cwis anffurfiol yn cael ei dreialu ddiwedd Chwefror er mwyn profi dulliau anffurfiol i gynnig cyfleoedd cymdeithasol i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr llai hyderus.
1.5		Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg integreiddio i rwydweithiau a sefydliadau Cymraeg eu hiaith	Cynllunio rhaglen gweithgareddau cymdeithasol amrywiol i ddod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd	Llunio calendr blynyddol o ddigwyddiadau gan roi cymorth marchnata	Dysgu Cymraeg y Fro; Menter Bro Morgannwg	Gyda gwaith partneriaeth rhwng Cymrodorion y Barri a DCyF, cynyddodd nifer y dysgwyr lefel uwch a fynychodd gyfarfodydd y Cymrodorion yn sylweddol. Trefnir digwyddiadau ar y cyd gan gynnwys Noson Lawen. Mae gan Dysgu Cymraeg y Fro bresenoldeb yn Gŵyl Fach y Fro i rannu gwybodaeth a chynnal gweithgareddau yn benodol ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliodd Menter Bro Morgannwg 4

						sesiwn loga arall yn y gwanwyn, yn ogystal â dosbarth crefft fis Rhagfyr. Cynhaliwyd 2 o Gigs Bach y Fro yn ystod y flwyddyn – un ym mis Mai (Al Lewis – cynulleidfa o 75) ac un ym mis Rhagfyr (Bryn Fôn – cynulleidfa o 80). Mae Gwyl Fach y Fro hefyd yn rhoi cyfle gwych i dreiddio i rwydweithiau Cymraeg a chymdeithasu â siaradwyr rhugl ac mae Dysgu Cymraeg y Fro hefyd yn yr ŵyl yn rhannu gwybodaeth a chynnal gweithgareddau yn benodol ar gyfer dysgwyr Cymraeg.
1.6		Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd	Trefnu cyrsiau i deuluoedd lle gall oedolion a phlant fwynhau gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu iaith	Trefnu cyrsiau iaith teuluol yn ystod gwyliau'r ysgol	Dysgu Cymraeg y Fro;	Mae DCyF yn derbyn Grant Arloesi CDCG i gynnal Clwb Gwaith Cartref i deuluoedd a phlant mewn ysgolion Cymraeg. Mae rhieni, neiniau a theidiau a gofalwyr yn mynychu gyda phlant oedran ysgol gynradd. Mae teuluoedd o bob ysgol Gymraeg yn y Fro wedi mynychu Clwb Ni. mae gweithgareddau a

						ddarperir gan DCYF a'r Urdd yn galluogi rhieni i gymryd rhan gyda'r plant, gan ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y grant hwn yn llawer llai yn 2019-2020 ac nid yw'n debygol o fod ar gael yn 2020-2021.
1.7		Rhoi cyfleoedd ar-lein i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu Cymraeg	Sefydlu ystafell sgwrsio/fforwm ar-lein i ddysgwyr Cymraeg yn yr ardal	I'w sefydlu erbyn mis Medi 2017	Dysgu Cymraeg y Fro; Canolfan Genedlaethol	Mae ffrydiau Facebook a Twitter DCyF yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan ddysgwyr a'r sefydliad er mwyn rhannu gwybodaeth am gyrsiau a digwyddiadau, cyfleoedd sgwrsio ac ati. Mae DCyF yn rhannu gwybodaeth gan sefydliadau partner a darparwyr Cymraeg eraill gan gynnwys Menter Bro Morgannwg a Chyngor y Fro.
2.1	Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd	Trefnu sesiynau amser stori yn Gymraeg mewn amryw leoliadau yn y Fro, yn arbennig mewn llyfrgelloedd	Sefydlu sesiynau amser stori ym mhob un o'r prif drefi a'u cynnwys mewn darpariaeth prif ffrwd	Cyngor Bro Morgannwg; Menter Bro Morgannwg	Mae Menter Bro Morgannwg yn parhau i gynnal 4 sesiwn amser stori wythnosol yn y Rhws, y Barri, Penarth a Llanilltud Fawr. Mae 46 o blant a 40 o rieni yn mynychu bob wythnos

						ar gyfartaledd. Mae hyn yn y broses o gael ei ail-frandio gyda thiwtor newydd er mwyn ceisio cynyddu ac ehangu'r apêl. Mae Menter Bro Morgannwg hefyd wedi cynnal gweithgareddau i deuluoedd ddysgu gyda'i gilydd - darganfod mwy am fyfyr natur a chael eu cyflwyno i eirfa Gymraeg newydd, drwy Deithiau Wellingtons Llwybrau Natur tymhorol a dyddiau hwyl (Miri).
2.2		Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r ysgolion i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng iaith addysg a'r gymuned	Llunio strategaeth ar y cyd sy'n galluogi'r Gymraeg i ddod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden	Cyhoeddi'r strategaeth ar y cyd erbyn mis Hydref 2017	Gwasanaeth Ieuenctid y Fro; Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc; Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru;	Gweler isod
2.3		Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg i blant oedran cynradd	Trefnu cyfres o weithgareddau hamdden ar gyfer amryw ddiddordebau e.e. chwaraeon, drama, dawnys, celf a chrefft, gemau	Cytuno ar y rhaglen a'i gweithredu erbyn mis Medi 2017.	Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru; Gwasanaethau Hamdden Bro Morgannwg	Mae Adran Chwaraeon yr Urdd, ar y cyd â Menter Bro Morgannwg, yn cynnal 7 clwb wythnosol i blant ysgol gynradd. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi nofio

			cyfrifiadur, gweithgareddau awyr agored ac ati.			yng Nghanolfan Hamdden Penarth, Canolfan Hamdden y Barri a Neuadd Hebron, clwb gymnasteg, nifer o sesiynau aml- chwaraeon a chlwb drama newydd ym Mhenarth (dechreuodd yn yr Hydref gyda'r niferoedd yn cynyddu bob tymor
2.4		Rhoi cymorth i rieni â phlant mewn ysgolion Cymraeg i leddfu pryderon am helpu gyda gwaith cartref	Sefydlu Clybiau Gwaith cartref mewn ysgolion Cymraeg neu Ganolfannau Cymunedol i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg	Trafodaethau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol gyda bwriad i sefydlu Clybiau Gwaith Cartref erbyn Medi 2018.	Ysgolion Cynradd Cymraeg; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Dysgu Cymraeg y Fro	Mae DCyF yn parhau i redeg Clwb Ni, Clwb Gwaith Cartref i deuluoedd sydd â phlant mewn ysgolion Cymraeg, yn ystod y tymor yng Nghanolfan Palmerston. Mae'r staff yn dod i adnabod y teuluoedd ac maent yn gefnogol o rieni ac yn paratoi deunyddiau neu weithgareddau ychwanegol mewn ymateb i anghenion a nodwyd.
2.5		Annog disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy yn	Yr ysgol i gytuno ar Ddatganiad Cenhadaeth a'r cod ymddygiad a sefydlu Fforwm Defnydd	Fforwm Defnydd laith i gynnwys cynrychiolwyr o bob blwyddyn ysgol i'w sefydlu	Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;	Trefnwyd cyfarfodydd â'r adran Dysgu a Sgiliau i gydlynu fel rhan o waith y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

		gymdeithasol.	laith	erbyn mis Medi 2017		(CSGA).
2.6		Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Sefydlu Fforwm Pobl Ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a'i gefnogi i drefnu cyfres o weithgareddau cymdeithasol	Trefnu o leiaf 3 gweithgaredd Cymraeg arwyddocaol yn ystod pob blwyddyn ysgol	Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru	Trefnwyd cyfarfodydd â'r adran Dysgu a Sgiliau i gydlynu fel rhan o waith y CSGA.
2.7		Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth	Cefnogi'r clwb ieuenctid Cymraeg yng Nghanolfan Palmerston, y Barri ac ystyried y posibiliad o sefydlu darpariaeth debyg yn rhywle arall	Ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnwys Penarth a'r Bont-faen	Cyngor Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru	Gweler 2.3
2.8		Rhannu gwybodaeth â phobl ifanc am gyfleoedd swyddi a phrentisiaethau sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog	Sicrhau bod gan Gyrfa Cymru a gofalmwyr mewn ysgolion y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi sy'n gofyn am allu yn y Gymraeg a rhannu'r wybodaeth hon â phobl ifanc	Gyrfa Cymru, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a Choleg Caerdydd a'r Fro i gytuno ar gynllun gweithredu erbyn Medi 2017 a dyfeisio ffyrdd arloesol o roi gwybodaeth drwy apiau a'r cyfryngau cymdeithasol	Gyrfa Cymru; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Coleg Caerdydd a'r Fro;	Ariannwyd swyddog busnes gan Lywodraeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd pellach.
2.9		Defnyddio technoleg	Creu gwefan	Sefydlu Hyb	Gyrfa Cymru;	Fel uchod

		gyfathrebu i hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog	benodedig, ap a chyfeirlyfr i hysbysebu swyddi a phrentisiaethau sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg	rhannu gwybodaeth i brif gyflogwyr yr ardal y gellir ei ddefnyddio i recriwtio staff a phrentisiaid dwyieithog	AALI; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Coleg Caerdydd a'r Fro;	
2.10		Cefnogi datblygiad gofal plant yn y Gymraeg	Cynnal adolygiad o anghenion gofal plant rhieni gyda phlant mewn addysg Gymraeg	Cefnogi datblygiad gofal plant ar ôl ysgol a chofleidiol lle nodir anghenion.	Menter Bro Morgannwg; RhPPI; Cyngor Bro Morgannwg	Dan drafodaeth.
2.11		Cefnogi datblygiad cyfleoedd gofal plant Cymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol	Parhau â chynlluniau chwarae Cymraeg dros wyliau'r ysgol	Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu cynlluniau chwarae gan 100%	Menter Bro Morgannwg; RhPPI; Cyngor Bro Morgannwg	Mae Menter Bro Morgannwg yn parhau i gynnal y Cynllun Gofal Gwyliau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am 9 wythnos y flwyddyn. Hon yw'r unig ddarpariaeth gofal plant trwy'r dydd sydd ar gael trwy gyfrwng Cymraeg yn y Fro. Yn ystod y cyfnod hwn, ar gyfartaledd mynychodd 28 o blant bob dydd.  Bu Menter Bro Morgannwg hefyd yn rhedeg cynlluniau chwarae BWRLWM mynediad agored yn



						<p>ystod y Pasg, y Sulgwyn, gwyliau'r haf a hanner tymor yr Hydref.</p> <p>Mynychodd 40 o blant y sesiynau ar gyfartaledd yn ystod gwyliau'r haf, gyda rhai dyddiau yn denu 60!</p> <p>Cafodd y fenter gefnogaeth ychwanegol yn ystod hanner tymor yr Hydref drwy gynllun peilot Newyn Gwyliau Llywodraeth Cymru i gynnig pecyn cinio ar gyfer pob plentyn a fynychodd y sesiynau Bwrlwm. Cawsant adborth cadarnhaol iawn ac rydym yn obeithiol y gallwn barhau â'r ddarpariaeth hon yn ystod 2020-21.</p>
2.12		Darparu gofal dydd yn Gymraeg	Cynnal astudiaeth o ddichonoldeb i ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu darpariaeth gofal dydd Gymraeg yn y Fro	Cwblhau astudiaeth o ddichonoldeb erbyn Mawrth 2017	Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg	Dan drafodaeth.
2.13		Cynyddu nifer y gweithgareddau	Adeiladu ar lwyddiant Gŵyl Fach	Trefnu 3 diwrnod hwyl i'r teulu yn	Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru;	Mae Menter Bro Morgannwg yn parhau i

		Cymraeg sy'n darparu ar gyfer diddordebau teuluoedd	y Fro a threfnu digwyddiadau tebyg i gyd-daro â dathliadau'r Nadolig, Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi	ystod y flwyddyn mewn rhannau gwahanol o'r sir a chynyddu nifer y mynychwyr i ŵyl Fach y Fro i 3,000	Dysgu Cymraeg y Fro; Cyngor Bro Morgannwg;	gynnal ei gŵyl flynyddol ar Ynys y Barri, Gŵyl Fach y Fro. Fel trefnwyr, rydym yn falch bod yr ŵyl yn parhau i ddatblygu a thyfu o nerth i nerth a heb os, ystyrir Gŵyl Fach y Fro bellach yn un o uchafbwyntiau calendr digwyddiadau'r haf i breswylwyr y Fro a thu hwnt. Llwyddwyd i ddenu dros 6,000 o bobl i fwynhau'r ŵyl yn 2019 ac mae'r adborth a gawsom wedi bod yn gadarnhaol iawn unwaith eto gan bartneriaid a'r rhai a fynychodd y digwyddiad.
2.14		Datblygu'r sin gerddoriaeth Gymraeg a'r celfyddydau drwy gynllun Gigs Bach y Fro	Parhau â'r ddarpariaeth cerddoriaeth a chelfyddydau Gymraeg mewn lleoliadau gwahanol ledled y Fro ac adeiladu ar lwyddiant Gigs Bach y Fro	Cynnal 6 digwyddiad y flwyddyn i oedolion yn y Fro a sicrhau bod o leiaf 60 o bobl yn mynychu pob digwyddiad	Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg	Gweler uchod
2.15		Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg i blant a	Sicrhau bod gwersi nofio ar gael yn Gymraeg i'r holl	Yr holl ysgolion Cymraeg i gael cynnig gwersi	Gwasanaethau Hamdden; Legacy Leisure	Mae gan Ysgolion Cymraeg bellach gyfle i gael gwersi nofio'n

		phobl ifanc.	ysgolion Cymraeg	nofio yn Gymraeg erbyn mis Medi 2017	(Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); Urdd Gobaith Cymru; Coleg Caerdydd a'r Fro	Gymraeg drwy drefniant blaenorol.
2.16		Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg	Sicrhau bod gwersi nofio ar gael drwy ddarpariaeth ôl-ysgol yn Gymraeg hyd at o leiaf Lefel 1	Gwersi nofio hyd at Lefel 1 i fod ar gael yn Gymraeg yn yr holl brif ganolfannau hamdden erbyn mis Medi 2017	Gwasanaethau Hamdden; Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); Urdd Gobaith Cymru; Coleg Caerdydd a'r Fro	Gwnaed ymdrechion i ystyried y galw a'r cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol yn Gymraeg ac mae dosbarthiadau lefel 1 bellach ar gael yng Nghanolfan Hamdden y Barri ar adeg benodol. Cynigir gwersi nofio Cymraeg yn y dyfodol yn ôl y galw.
2.17		Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg	Sicrhau bod dosbarthiadau ffitrwydd ar gael yn Gymraeg	Sefydlu o leiaf 2 ddosbarth ffitrwydd Cymraeg erbyn Medi 2018 a chynyddu'r nifer dros y pedair blynedd nesaf	Gwasanaethau Hamdden; Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru	Drwy'r cynllun 5x60, cyflwynir un dosbarth ffitrwydd yr wythnos yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg sy'n targedu cyfranogiad gan ferched. Mae hyn yn cael ei gyflawni gan Byw'n Heini Cymru.
2.18		Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg	Cydweithredu â chymdeithasau chwaraeon i sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn Gymraeg mewn gweithgareddau fel	Cytuno ar gynllun gweithredu erbyn mis Medi 2018 gyda'r prif gymdeithasau chwaraeon i hyfforddi	Cymdeithasau Chwaraeon; Gwasanaethau Hamdden; Urdd Gobaith Cymru	Mae gan y Tîm Datblygu Chwaraeon Gytundeb Partneriaeth gyda'r URDD sy'n darparu prentis chwaraeon cymwysedig i gyflwyno 6 awr o weithgareddau

			gymnasteg, pêl-rwyd, hoci, tennis, rygbi, pêl-droed ac ati	hyfforddwyr Cymraeg a sefydlu clybiau hamdden a gweithgareddau Cymraeg		<p>allgyrsiol o fewn y cynllun 5x60 yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg (ystadegau cyfranogiad ar gael os oes angen).</p> <p>Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys tenis bwrdd, pêl fasged i ferched, pêl-fasged, dodgeball a rygbi merched</p> <p>Mae'r tîm datblygu chwaraeon wedi darparu hyfforddiant i ddisgyblion Cymraeg eu hiaith sy'n ymwneud â chyflwyno gweithgareddau yn yr ysgol ac yn y gymuned gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 2 Lysgennad Efydd ym Mhen y Garth yn cynorthwyo â darpariaeth yr ysgol</li> <li>• 5 Llysgennad Ifanc Arian ym Mro Morgannwg yn helpu i gyflwyno 5x60.</li> <li>• 2 Hyfforddwr y Dyfodol yn cyflwyno</li> </ul>
--	--	--	--	--	--	---

						<p>gweithgarwch i dros 500 o gyfranogwyr mewn pêl-droed a gymnasteg, gan gynnig 135 awr o'u hamser.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Arweinwyr Chwaraeon - Cyflwyno cwrs i 25 disgybl ym mlynnyddoedd 8/9 a nodwyd gan athrawon Addysg Gorfforol yr ysgol. Mae pob un ohonynt ar hyn o bryd yn gwirfoddoli 5 awr o'u hamser mewn ysgolion cynradd lleol, y cynllun 5x60 a sesiynau yn y gymuned.</li><li>• Hyfforddiant <i>Playmaker</i> Arweinwyr Chwaraeon a hyfforddiant cynhwysiant i'r anabl (<i>Playtogether</i>) wedi ei gynnig i ddisgyblion Blwyddyn 5/6 er mwyn helpu i gyflwyno Gweithgareddau Corfforol mewn lleoliadau cwricwlaidd a thu hwnt.</li></ul>
--	--	--	--	--	--	--

						<p>Meithrin cysylltiadau ychwanegol ag ysgolion cynradd y clwstwr Cymraeg. Cyfleoedd wedi eu cynnig i gymryd rhan mewn cystadlaethau a gwyliau lleol.</p> <p>Cynrychiolir y Tîm Datblygu Chwaraeon yng nghyfarfodydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chaiff y camau perthnasol eu cynnwys yn y cynllun.</p>
2.19		Sicrhau bod Canolfannau Hamdden yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg	Penodi Hyrwyddwr iaith ymhob canolfan hamdden sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol ac yn ei darpariaeth hamdden	Hyfforddi Hyrwyddwyr iaith i'w gwblhau erbyn mis Medi 2017 a sefydlu prosesau monitro i werthuso cynnydd o ran defnyddio'r iaith	Gwasanaethau Hamdden; Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); Urdd Gobaith Cymru; Menter Bro Morgannwg	Mae'r Gymraeg bellach yn eitem barhaol ar agenda'r cyfarfod rheoli Cleient/Contractwr.
3.1	Gweithgareddau Cymunedol	Defnyddio technoleg gyfathrebu fel llwyfan gwybodaeth a rhwydweithio i	Datblygu 'Echlysur' yn y Fro fel rhwydwaith cyfathrebu sy'n rhoi	Ehangu marchnata'r rhwydwaith a phennu targed	Menter Bro Morgannwg; Gwasanaeth Ieuencid; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Urdd	Mae Menter Bro Morgannwg yn cynnal 'ymgyrchoedd' cyson er mwyn cynyddu'r gronfa

		siaradwyr Cymraeg a dysgwyr	gwybodaeth i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg am weithgareddau, digwyddiadau, cyfleoedd swyddi ac ati	pum mlynedd i gael 3,000 o danysgrifwyr	Gobaith Cymru	ddata digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am y Fenter a chynnal stondinau mewn nifer o ddigwyddiadau, dosbarthu ffurflenni cofrestru yn ein gweithgareddau, ac ymweld â phob dosbarth Cymraeg i oedolion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Erbyn mis Mawrth 2018, roedd dros 1,100 o drigolion yn cael gwybodaeth drwy e-bost am ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn y Fro. Mae'r hon yn ffynhonnell rhannu gwybodaeth effeithiol am weithgareddau'r Fenter, ond maent hefyd yn rhannu gwybodaeth/hysbysebion gan bartneriaid Cymraeg eraill yn yr ardal. Mae Menter Bro Morgannwg yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo gwasanaeth 'Echlysur' ac mae 1,300 tanysgrifiwr ar y gronfa ddata ar hyn o bryd.
3.2		Defnyddio technoleg gyfathrebu i gadw mewn cysylltiad â disgyblion ar ôl iddynt	Sicrhau bod manylion cyswllt cynifer o'r rhai sy'n gadael ysgol â	Casglu manylion cyswllt yn flynyddol	Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Menter Bro Morgannwg; Gwasanaeth Ieuencid	Ceir grwpiau anffurfiol Facebook a Linked In ar hyn o bryd. Bydd trafodaethau'n cael eu

		adael Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	phosibl yn cael eu hychwanegu at y llwyfan rhwydweithio			cynnal ar sut all y rhain gael eu datblygu a'u hehangu.
3.3		Sicrhau cynhwysiant cymunedol a gwirfoddolwyr wrth gynllunio a threfniadau gweithgareddau Cymraeg	Sefydlu Hyb Cymunedol i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg	Sefydlu Hyb Cymunedol yn y Fro erbyn mis Medi 2018 a'u helpu i drefnu rhaglen flynyddol o weithgareddau / digwyddiadau poblogaidd	Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru; Cyngor Bro Morgannwg	Mae Menter Bro Morgannwg yn defnyddio ystod o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol digidol i hyrwyddo ei gwasanaethau, gan gynnwys: Twitter (1,272), Instagram (339) a Facebook (851).
3.4	Nid yw cyllideb bresennol MBM yn ddigon ar gyfer erthyglau wythnosol	Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn rhwydweithiau digidol a phrint	Parhau i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn y Glamorgan Gem sy'n bapur cymunedol print ac ar-lein	Datblygu darpariaeth sy'n cynnwys erthyglau yn y Glamorgan Gem yn y fersiynau print ac ar-lein	Menter Bro Morgannwg; Glamorgan Gem	Oherwydd diffyg cyllid, ni yw Menter Bro Morgannwg yn cynhyrchu cynnwys dwyieithog rheolaidd ar hyn o bryd ar gyfer y Glamorgan GEM. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i rannu cynnwys a hysbysebu pan fo'n bosibl e.e. Gŵyl Fach y Fro
3.5		Ystyried y posibiliad o sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Fro	Cynnal astudiaeth o ddichonoldeb i ystyried y potensial o sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Barri	Ceisio arian a chynnal astudiaeth o ddichonoldeb erbyn mis Medi 2018	Cyngor Bro Morgannwg; Llywodraeth Cymru; Menter Bro Morgannwg; Cyngor Tref y Barri.	Eto i fynd i'r afael ag ef
4.1	Cymraeg yn y Gweithle	Y Cyngor i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg	Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg.	Caiff y grwp Insight ddiweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau a	Cyngor Bro Morgannwg	Datblygwyd cynllun gweithredu ac mae mwyafrif y camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau.



				materion cydymffurfiaeth		
4.2		Asesu sgiliau ieithyddol staff	Cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o sgiliau ieithyddol staff a nodi bylchau yn y gwasanaethau sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog a nodi anghenion hyfforddiant	Cwblhau archwiliad a dadansoddiad o sgiliau iaith erbyn mis Rhagfyr 2017	Cyngor Bro Morgannwg	Cynhaliwyd ail archwiliad o sgiliau ieithyddol ym mis Medi 2018. Casglwyd gwybodaeth gan bob defnyddiwr cyfrifiadur.
4.3		Cynyddu nifer y staff dwyieithog i ddarparu gwasanaethau'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg	Y Cyngor i recriwtio digon o siaradwyr Cymraeg, buddsoddi mewn staff sy'n siarad Cymraeg a chefnogi staff i wella eu sgiliau Cymraeg ar dras pob lefel dysgu iaith	Adolygu'r Strategaeth Sgiliau Iaith erbyn mis Medi 2017 gyda'r nod o sicrhau fod cyfradd y staff dwyieithog yn adlewyrchu'n fras cyfradd y Cyngor Sir erbyn 2021.	Cyngor Bro Morgannwg	Mae'r Cyngor yn gweithredu'n bositif i hyfforddi mwy o staff a recriwtio staff Cymraeg.
4.4		Mabwysiadu polisi recriwtio rhagweithiol a fydd yn galluogi'r Cyngor i roi mwy o wasanaethau dwyieithog yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg	Yr holl swyddi i'w dynodi'n naill ai Cymraeg 'hanfodol' neu 'ddymunol'. Swyddi i'w hystyried yn 'hanfodol' os nad oes siaradwr Cymraeg yn cael ei gyflogi yn y tîm hwnnw neu os yw rheolwyr yn gweld bod angen mwy o	Strategaeth Sgiliau Iaith ddiwygiedig yn amlinellu'r polisi recriwtio i gael ei llunio erbyn mis Mawrth 2018	Cyngor Bro Morgannwg	Pob swydd i fod o leiaf yn Gymraeg 'dymunol'.

			gapasiti dwyieithog.			
4.5		Rhoi cyfleoedd i staff wella eu sgiliau ieithyddol	Llunio rhaglen o gyrsiau iaith i ddatblygu sgiliau a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg	Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn mis Mehefin 2017	Cyngor Bro Morgannwg	Gall staff fynd i gwrs Dysgu Cymraeg wythnosol yn ystod eu hamser gwaith ac yn rhad ac am ddim; ariennir hyn gan DCYF a Chyngor Bro Morgannwg.
4.6		Galluogi staff ac aelodau etholedig i fod yn ymwybodol o hanes a diwylliant y Gymraeg gan gynnwys cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y Gymraeg	Trefnu rhaglen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Chydymffurfiaeth y Gymraeg a chynnwys cwrs sefydlu i staff newydd	Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn mis Mehefin 2017	Cyngor Bro Morgannwg	Bwriedir cynnal sesiynau ymwybyddiaeth Cymraeg ar gyfer 2020. Mae hyn yn dibynnu ar sawl ffactor. Mae cwrs 'Croeso Cymraeg' ar gael ar-lein.
4.7		Creu amgylchedd sy'n annog defnydd mwy o'r Gymraeg	Creu adnoddau, deunydd hyrwyddo ac effaith weledol sy'n hybu defnyddio'r iaith ac yn meithrin parch a chefnogaeth at ddwyieithrwydd	Parhaus	Cyngor Bro Morgannwg	Datblygwyd bathodynau ar e-byst Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr. Siaradwyr Cymraeg yn gwisgo cortynnau gwddf. Arwyddion drwy'r adeilad yn dangos y croesewir siarad Cymraeg.
4.8		Rhoi cymorth rhyngrwyd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg	Defnyddio'r fewnrwyd i gyfeirio staff at adnoddau iaith defnyddiol e.e. e-ddysgu, gramadeg ar-lein a gwirwyr	Cwblhau rhestr o adnoddau ar-lein erbyn mis Ionawr 2017	Cyngor Bro Morgannwg	Datblygwyd tudalen i ddysgwyr â dolenni i adnoddau a hefyd dudalen i siaradwyr i egluro eu hawliau.

			sillafu, geiriaduron ar-lein ac adnoddau cyfieithu			
4.9		Rhoi cymorth rhyngwrwyd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg	Datblygu mewnwrwyd i gyfeirio staff at gyrсияu Cymraeg a gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned	Cwblhau erbyn mis Hydref 2016 a'i ddiweddarau'n gyson	Cyngor Bro Morgannwg; Dysgu Cymraeg y Fro;	Gweler uchod.
4.10		Normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Asesu dewisiadau iaith staff mewn perthynas â gweithrediadau mewnol:- Gohebiaeth; ffurflenni; cwynion; adolygiadau perfformiad; anghenion hyfforddiant; polisïau staff; cyfarfodydd mewnol ac ati	Asesiad i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2017	Cyngor Bro Morgannwg	Gwnaed ymarfer archwilio e.e. arolwg staff Cymraeg i siaradwyr Cymraeg
4.11		Hyrwyddo cynlluniau sy'n dangos yn weledol y croesewir y Gymraeg yn y gweithle	Parhau i ddatblygu mentrau sy'n creu amgylchedd sy'n meithrin y defnydd o'r Gymraeg gan staff e.e. bathodynau, posterï,  Cortynnau gwddf, Defnyddio'r logo <i>Cymraeg</i> ar e-byst a'r fewnrwyd,	Parhaus	Cyngor Bro Morgannwg	Llofnodion e-byst bellach yn dangos yn glir os yw staff yn siarad neu'n dysgu Cymraeg

			llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa			
4.12		Dosbarthu deunydd hyrwyddo'r Gymraeg ar fewnrwyd y staff	Dosbarthu bathodynau, cortynnau gwddf, poster, creu arbedwyr sgrin dwyieithog a hyrwyddo cyrsiau Cymraeg	Parhaus	Cyngor Bro Morgannwg	Rheolaidd
4.13		Datblygu hyder wrth ysgrifennu Cymraeg	Gosod Cysill a Cysgeir (gwirwyr gramadeg a sillafu Cymraeg) ar gyfrifiaduron ac iPads yr holl staff ac aelodau etholedig	Gosod yr holl becynnau cyfrifiadur wedi'u gosod ac ar waith erbyn mis Rhagfyr 2016	Cyngor Bro Morgannwg	Gosodwyd ar yr holl gyfrifiaduron yn ôl yr angen  Mae grant newydd a gafodd y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi talu am drwydded i bob aelod o staff allu defnyddio fersiynau wedi'u diweddarau o'r feddalwedd hon, a bydd staff Dysgu Cymraeg y Fro yn darparu hyfforddiant ar ei ddefnyddio yn 2020.
4.14		Annog staff ac aelodau etholedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau mewnol ac allanol	Rhoi hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno yn Gymraeg ac ystyried ymarferoldeb darparu cyfleusterau cyfieithu mewn	Llunio rhaglen hyfforddiant erbyn mis Medi 2017	Cyngor Bro Morgannwg	I fynd i'r afael â nhw  Mae rhai sesiynau hyfforddi staff mewnol wedi cael eu darparu yn Gymraeg, lle'r oedd

			cyfarfodydd mewnol			cyfleoedd niferus i fynychu ar gael roedd un o'r rhain yn Gymraeg.
--	--	--	--------------------	--	--	--